

CYFLEOEDD GWIRFODDOLI EVI





CYFLEOEDD GWIRFODDOLI EVI

Croeso i EVI. Rydym wrth ein boddau eich bod yn meddwl am wirfoddoli gyda ni ac edrychwn ymlaen at eich cefnogi ar eich siwrnai gyda EVI. Mae ein gwirfoddolwyr yn helpu i gefnogi'r amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau cymunedol ar gael yn EVI, ac maent yn allweddol i ddyfodol llwyddiannus ein cymuned a'n canolfan ddiwylliannol.

Mae gwirfoddoli yn ffordd werthfawr o lenwi'ch amser, cyfarfod pobl newydd, cael profiad gwaith ac ehangu eich CV. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i'r tîm yma yn EVI!

CREDYDAU AMSER

Gallwch ennill Credydau Amser a chefnogi eich cymuned wrth wirfoddoli yn EVI .

Rhoddir un credyd amser am bob awr sydd yn cael ei roi. Gallwch wario'r rhain yn EVI neu mewn mannau eraill ledled y D.U., megis Tŵr Llundain. Gallwch chi hefyd eu rhannu gyda theulu a ffrindiau.



GWIRFODDOLWYR DIGWYDDIADAU

Pwrpas y rôl: Helpu tîm EVI i gynllunio a chynnal digwyddiadau yn y ganolfan.

Yn atebol i: Uwch-gydllynydd Datblygu EVI

Beth fyddaf yn gwneud?

- Cyfarfod a chyfarach cwsmeriaid
- Helpu i osod a chlirio cyn ac ar ôl digwyddiadau
- Cefnogi'r rhai sy'n cymryd rhan

Pa Sgiliau, Profiad a Nodweddion sy'n angenrheidiol?

- Mwynhau cyfarfod a sgwrsio gyda phobl newydd
- Bod yn gwrtais, cyfeillgar a phositif
- Dibynadwy a'n gallu gweithio fel rhan o dîm
- Hyblyg a'n fodlon gweithio yn yr awyr agored
- Brwdfrydig am EVI ac am helpu gyda digwyddiadau
- Os oes gennych chi sgiliau neu brofiadau penodol yn ymwneud â digwyddiadau, byddai hynny'n wych ond nid yw'n angenrheidiol.



CYNORTHWYWYR CAFFI

Pwrpas y rôl: Cynorthwyo'r Cogydd/Hyfforddwr i ddarparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid

Yn atebol i: Cogydd/Hyfforddwr EVI

Beth fyddaf yn gwneud?

- Cyfarfod a chyfarch cwsmeriaid a'u harwain at eu byrddau
- Clirio platiau gwag a pharatoi byrddau at gwsmeriaid newydd
- Sicrhau fod y caffi'n lan ac yn dwt bob tro

Pa Sgiliau a Phrofiad sy'n angenrheidiol?

- Mwynhau cyfarfod a sgwrsio gyda phobl newydd
- Bod yn gwrtais, cyfeillgar a phositif
- Dibynadwy a'n gallu gweithio mewn tîm
- Yn hapus i fod mewn rôl brysur, ar eich traed ar gyfnodau prysur



GWIRFODDOLWYR GARDD GYMUNEDOL

Pwrrpas y rôl: I gynnal, datblygu ac arbed ein gardd gymunedol fel y gall pawb ei fwynhau.

Yn atebol i: Uwch-gydllynydd Datblygu EVI

Beth fyddaf yn gwneud?

- Gweithio fel rhan o dîm
- Helpu gyda chynnal a chadw
- Datblygiad a chadwraeth yr ardd fel y gall pawb ei fwynhau
- Clirio planhigion sydd wedi marw a chwyn
- Tocio coed a phlanhigion
- Creu awyrgylch heddychlun a chyfeillgar i ymwelwyr yr ardd

Ymroddiad Amser: I'w drafod, ond 2 awr yr wythnos yn ddelfrydol.





Pa Sgiliau a Phrofiad sy'n angenrheidiol?

- Byddai ychydig o brofiad garddio yn ddefnyddiol ond nid yw'n angenrheidiol
- Mwynhau gweithio fel rhan o'r tîm
- Yn rhesymol o ffit
- Yn fodlon gweithio yn yr awyr agored ym mhob tywydd

GWIRFODDOLWYR CAFFI TRWSIO


Pwrpas y rôl: I helpu aelodau o'r gymuned i drwsio eu heitemau - gan leihau gwastraff a thynnu'r gymuned at ei gilydd.

Yn atebol i: Uwch-gydllynydd Datblygu EVI

Beth fyddaf yn gwneud?

- Helpu i drefnu (goruchwylio/gosod ystafell) y Cyfarfod Caffi Trwsio a chyfarch y cwsmeriaid
- Helpu i drwsio eitemau sydd wedi torri
- Rhannu sgiliau gydag aelodau'r gymuned
- Helpu gyda gweinyddiaeth y Caffi Trwsio ynghyd â thîm EVI

Ymroddiad Amser: I'w drafod, ond 2-3 awr y mis yn ddelfrydol.





Pa Sgiliau a Phrofiad sy'n angenrheidiol?

- Mwynhau cyfarfod a sgwrsio gyda phobl newydd
- Sgiliau trwsio eitemau domestig electronig, gwaith pren, gemwaith, arbenigaeth TG, gwnïo (trwsio dillad) neu drwsio beics.
- Cwrtais, cyfeillgar a phositif
- Dibynadwy a'n gallu gweithio fel rhan o dîm

GWIRFODDOLWYR UNDEB CREDYD

Pwrrpas y rôl: Helpu tîm EVI i ddarparu Pwynt Casglu Arian Clyfar Undeb Credyd.

Yn atebol i: Uwch-gydllynydd Datblygu EVI

Beth fyddaf yn gwneud?

- Cyfarfod a chyfarch cwsmeriaid digwyddiadau
- Helpu i gydlynu/trefnu/sefydlu Pwynt Casglu Undeb Credyd
- Cofrestru cwsmeriaid newydd a chymryd taliadau gan gwsmeriaid presennol
- Cefnogi'r swyddog cyllid i gymodi casgliadau

Ymroddiad Amser: I'w drafod, ond rhwng 2-4 awr y mis yn ddelfrydol





Pa Sgiliau a Phrofiad sy'n angenrheidiol?

- Mwynhau cyfarfod a sgwrsio gyda phobl newydd
- Cwrtais, cyfeillgar a phositif
- Dibynadwy a'n gallu gweithio fel rhan o dîm
- Byddai profiad o gyllid yn ddefnyddiol ond nid yw'n angenrheidiol - bydd hyfforddiant yn cael ei roi.

I GOFRESTRU EICH DIDDORDEB:

E-bostiwrch **sam@evi.cymru**
Ffoniwrch **01495708022**
neu galwch draw am sgwrs.



@EbbwValeEVI



@ebbwvaleEVI



@evi_ebbw_vale



www.evi.cymru

YNGLŶN Â PROMO-CYMRU

Mae ProMo-Cymru, elusen a menter gymdeithasol, yn cynnal ac yn warcheidwaid ar Institiwt Glynebwy (EVI). Rydym yn falch iawn o fod wedi achub EVI at ddefnydd cymunedol y dyfodol.



PRIF ARIANWYR

Yn bresennol, mae Institiwt Glynebwy yn cael ei ariannu gan Llywodraeth y DU drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU.*



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Blaenau Gwent
County Borough Council

*Mae Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn rhaglen Llywodraeth y DU ar gyfer 2021/22. Nod hwn yw cefnogi pobl a chymunedau sydd fwyaf mewn angen ledled y DU i dreialu rhaglenni a dulliau newydd i baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredinol y DU. Mae'n buddsoddi mewn sgiliau, cymuned a lleoedd, busnes lleol, a chefnogi pobl i mewn i gyflogaeth. Am ragor o wybodaeth, ewch i: <https://www.gov.uk/government/publications/uk-community-renewalfund-prospectus>

CONTACT: 01495708022 / POP IN / SIAN@EVI.CYMRU
Ebbw Vale Institute, Church Street, Ebbw Vale, NP23 6BE